# Cynllun Datblygu Ysgol Gymraeg Trebannws Medi 2025- Medi 2026 (Blwyddyn 3 o'r targed)

| Blaenoriaeth 2 | Cwestiwn | **Creu dysgwyr uchelgeisiol ac hyderus drwy ddatblygu Medrau Rhifedd disgyblion**<br>**Arweinydd y Flaenoriaeth : Angharad Saunders**<br>**Aelod (au) Llywodraethol: Mrs R Wilcox, Mr D Jones + Mr C Davies** |
|---|---|---|

| **Pam mae hyn yn flaenoriaeth - beth mae hunan werthusiad yn dweud wrthym fod eisiau gwella?** | | **Meini prawf llwyddiant – sut bydd y llwyddiant yn edrych ar ôl blwyddyn?** |
|---|---|---|
| Mae medrau rhifedd mwyafrif o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen a llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda ar lefel eu hoedran a'u gallu. Yn ogystal, ar draws yr ysgol yn enwedig yn yr adran iau, mae disgyblion yn gyffyrddus ac yn frwdfrydig wrth siarad am eu gwaith a'r hyn maent wedi gwblhau. Mae'r disgyblion yn ymateb i farcio'r athrawes yn reolaidd.<br><br>Serch hynny, ar draws yr ysgol, mae angen parhau i sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddefnyddio sgiliau rif o fewn cyd-destun problemau. Yn ogystal, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau rhifedd ehangach, er enghraifft gwaith mesur hyd, cynhwysedd, pwyso a gwaith siâp. O ganlyniad, nid yw medrau rhifedd ehangach y disgyblion wedi datblygu'n ddigon effeithiol. Mae angen sicrhau bod mwy o ddefnydd o rifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.<br><br>Mae angen i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddatblygu: | | **Darpariaeth**<br>Bydd llawer o athrawon yn hybu gallu plant i feddwl a gweithredu datblygiad dealltwriaeth gysyniadol trwy ddulliau chwilfrydig, dyfeisgar, gwydnwch a chydweithredol<br><br>**Dysgu**<br>Bydd llawer o ddisgyblion yn gallu:<br>• cynrychioli cysyniadau mewn ffyrdd amrywiol<br>• defnyddio iaith fathemategol fanwl gywir i egluro eu meddwl<br>• nodi strategaethau effeithlon ar gyfer cyfrifiadau cymhwyso cysyniadau yn annibynnol i broblemau newydd mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd<br>• cymhwyso eu sgiliau rhifedd yn drawsgwricwlaidd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. |

| | | |
|---|---|---|
| • dyfnder dealltwriaeth gysyniadol o fewn trawsdoriad o elfennau rhif<br>• defnydd o iaith fathemategol fanwl gywir wrth drafod ac egluro eu syniadau mathemategol<br>• defnydd o strategaethau effeithlon wrth wneud cyfrifiadau<br>• rhuglder wrth gymhwyso eu sgiliau rhifedd yn drawsgwricwlaidd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. | | |